



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Mehefin 2019 am 6.00yh
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.**

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 June 2019 at 6.00pm
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors Shan Williams (*yn y gadair/in the chair*),
John Adams-Lewis, Clive Davies, Elaine Evans, Graham Evans, Marilyn Farmer, Richard Jones,
Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill (*gadawodd am/left
at 7:25pm*), Trystan Phillips, a Mr Wynford Jones (*clerc/clerk*).

- 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.** The Chair's Welcome and Personal Matters.
Croesawodd y Maer, y Cyng. Shan Williams, bawb i'w chyfarfod llawn cyntaf.
The Mayor, Cllr Shan Williams, welcomed everyone to her first full council meeting.
- 2. Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyng. / Cllr Debra Griffiths (*anhwylus/unwell*)
- 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pherionol gan Gynghorwyr.**
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.
- 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 7 Mai.**
Confirmation of Minutes of 7 May Council Meeting.
**Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Steffan Morgan bod cofnodion
cyfarfod 7 Mai yn gywir.**
Cllr Marilyn Farmer proposed that the 7 May council minutes be recorded as correct; this was
seconded by Cllr Steffan Morgan.
- 5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.**
**Tud. 1498, eitem 12 (Datganiadau Cyfrifyddu 2018-19 ar gyfer Cyngor Tref Aberteifi):
Mae'r dogfennau perthnasol wedi eu hanfon ymlaen at yr Archwilydd Allanol (Grant
Thornton) ar 29 Mai 2019 gyda thystysgrif postio.**
**Gosodwyd yr "Hysbysiad o bennu dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr" yn yr
hysbysfyrdau ar 24 Mai 2019. Bydd y dogfennau ariannol ar gael i'w harchwilio o
1-26 Gorffennaf 2019.**
Page 1498, item 12 (*Accounting Statements 2018-19 for Cardigan Town Council*):
All relevant documents were forwarded to the External Auditor (Grant Thornton) on 29 May
2019 with certificate of posting.
The "Notice of appointment of the date for the exercise of electors' rights" was placed in the
notice boards on 24 May 2019. The financial documents will be available for inspection from
1-26 July 2019.
- 6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**
Activities of the Mayor. Dates for the diary.
Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fis Mai gan yn y cyfarfod y cyn-Faer.
The Mayor's Diary of Events for May was distributed at the meeting by the past Mayor.
- 7. Cynllunio / Planning:**
Ni dderbyniwyd ceisiadau / No applications received.

8. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/6/19	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Mai / May).</i> <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room</i> <i>Cyfarfodydd y Cyngor / Council Meetings (7 & 21/5/19)</i> <i>Band Lydan (Mehefin) / Broadband (June)</i>	A9 A9 A20	D/D 4742 4742	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 0.00
31/5/19	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mai / May)</i>	A5	4743	£763.19 (0.00)
21/5/19	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (7 & 14/5/19)</i>	A18	4744	£119.10 (0.00)
17/5/19	Menter Aberteifi Cyf.: <i>Llogi Neuadd y Dref (Seremoni Sefydlu'r Maer).</i> <i>Hire of Guildhall for Mayor's Installation Ceremony (14/5/19)</i>	A4	4745	£80.00 (0.00)
20/5/019	Newsquest: <i>Hysbyseb (Seremoni Sefydlu'r Maer).</i> <i>Advert for Mayor's Installation Ceremony (14/5/19)</i>	A10	4746	£132.00 (22.00)
14/5/19	Florist on the Farm: <i>Blodau (Seremoni Sefydlu'r Maer).</i> <i>Flowers for Mayor's Installation Ceremony (14/5/19)</i>	A4	4747	£140.00 (0.00)
15/5/19	Finesse Catering Ltd.: <i>Lluniaeth (Seremoni Sefydlu'r Maer).</i> Refreshments for Mayor's Installation Ceremony (14/5/19) – 40 official guests @ £8.50, 60 personal guests (to be recouped from Mayor).	A4	4748	£850.00 (144.67)
31/5/19	Mr John Harman: <i>Gwasanaeth y Brysgyllwr / Mace bearer's fee</i>	A6	4749	£140.00 (0.00)
31/5/19	Mr Richard Harman: <i>Gwasanaeth y Brysgyllwr / Mace bearer's fee</i>	A6	4750	£140.00 (0.00)
31/5/19	Y Cyng. / Cllr Shan Williams: <i>Lwfans y Maer / Mayor's allowance (50%), 2019-20.</i>	A1	4751	£1,600 (0.00)
31/5/19	Y Cyng. / Cllr Shan Williams: <i>Rhoddion y Maer / Mayor's Donations, 2019-20.</i>	D1	4752	£620.00 (0.00)
31/5/19	Mrs Julie John: <i>Ffotograffydd / Photographer</i>	A6	4753	£150.00 (0.00)
1/6/19	David George Trem: <i>Blodau'r Haf / Summer plants</i>	C1	4754	£322.00 (0.00)
24/5/19	Jewsons: <i>Deunydd i'r Maes Sgrialu / Material for Skateboard Park (3 invoices)</i>	C5	4755	£282.88 (47.15)
31/5/19	<i>Bachan Deche / Handyperson (Mai / May)</i>	A19	4756	£501.60 (83.60)

Cynigiodd y Cyng. Catrin Miles bod y biliau a restrwyd yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans.

Cllr Catrin Miles proposed that the listed bills be paid; this was seconded by Cllr Elaine Evans.

(b) Apwyntio Archwilydd Mewnol am y flwyddyn ariannol 2019-20.

Appointment of an Internal Auditor for the 2019-20 financial year and to approve the "Terms of Reference".

Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies bod y cyngor yn ailbenodi Mr Ken Griffiths i wasanaethu fel Archwilydd Mewnol y cyngor am 2019-20; eiliwyd gan y Cyng John Adams-Lewis.

Cymeradwywyd yr Amodau Gorchwyl fel a gytunwyd mewn cyfarfod mewn pwyllgor y cyngor ar 5 Chwefror 2019. Cynigydd: Y Cyng. Steffan Morgan; eilydd: Y Cyng. Clive Davies.

Cllr Clive Davies proposed that Mr Ken Griffiths be re-appointed as Internal Auditor of the council for the 2019-20 financial accounts; seconded by Cllr John Adams-Lewis.

The Terms of Reference as agreed at the 5 February 2019 in committee meeting were approved. Proposed by Cllr Steffan Morgan; seconded by Cllr Clive Davies.

9. **Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.**

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Llongyfarchwyd ysgolion ac aelwydydd sir Ceredigion am ddod i'r brig yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd, a hefyd llwyddiant Coleg Ceredigion ac Ysgol y Preseli yn yr un modd.
- (ii) Gwyntyllodd y Cyng. Miles gyflwr gwael wyneb strydoedd Aberteifi yn cynnwys Stryd Morgan, Brecon Terrace a Ffordd Llandudoch. Cytunwyd bod llythyr yn cael ei anfon at adran briffyrdd y cyngor sir.
- (iii) Mae boncyffion y coed sydd yn dal i beryglu defnyddwyr ar yr afon Teifi yn dal i fod yn bryder. Cytunodd y Cyng. Miles drafod y mater gyda'r cyngor sir. Cytunwyd hefyd i'r cyngor anfon llythyr at yr awdurdod gyda chopi i'r Prif Weithredwr.

(b) Y Cyng. Elaine Evans:

- (i) Dywedodd y Cyng. Evans bod y postyn golau tu cefn i siop Aldi yn dal heb ei gywiro; bydd yn mynd rhagddi i hel gwybodaeth am hyn.
- (ii) Bu'r Cyng. Evans yn cynorthwyo gwraig yn North Park i lanw ffurflenni er mwyn ceisio derbyn gofal nyrsio i'w phriod.
- (iii) Gofynnwyd i Mr Gareth Payne, Swyddog Tai ac Amddiffyn Amgylcheddol y cyngor sir, anfon llythyr at berchennog anghyfrifol ci sydd yn baeddu'r palmentydd yn ardal Bro Teifi.

(c) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Mae un bolard newydd ger cylchfan yr Ysbyty wedi torri mewn gwrthdrawiad; mae'r Cyng. Adams-Lewis wedi cysylltu â Mr Gari Jones, Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth y cyngor sir.
- (ii) Gan fod swyddog yr heddlu ar ei wyliau, caiff y cyfarfod i symud baner y Ddraig Goch ar fur Neuadd y Dref ei aildrefnu.

(a) Cllr Catrin Miles:

- (i) The schools and aelwydydd of Ceredigion were congratulated for coming top of the league table at the Urdd National Eisteddfod in Cardiff. Coleg Ceredigion and Ysgol y Preseli were also commended for their successes.
- (ii) Cllr Miles highlighted the poor condition of the road surface in Morgan Street, Brecon Terrace and the St Dogmaels Road amongst others. It was agreed to forward a letter to the highways department of the county council.
- (iii) The tree trunks near the bridge on the river Teifi are still visible and in danger of causing serious injury to river users. Cllr Miles agreed to contact relevant officers at the county council; it was also agreed to send a letter to the department with a copy to the Chief Executive.

(b) Cllr Elaine Evans:

- (i) Cllr Evans reported that the lamppost at the rear of Aldi was still not repaired. She agreed to contact the relevant officer of the county council.
- (ii) Cllr Evans assisted a lady in North Park with paper work engaging the social services to assist her husband with nursing care.
- (iii) Mr Gareth Payne, Housing and Environmental Control Officer of the county council, was requested to forward a letter to an irresponsible dog owner warning him of the consequences of his dog continuously fouling the pavements in the Bro Teifi vicinity.

(c) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) One recently-constructed bollard at the Hospital roundabout has been damaged in a collision. Information has been forwarded to Mr Gari Jones, Assistant Engineer Transport Strategy of the county council.
- (ii) The meeting with the police to discuss moving the Welsh Dragon flag outside the Guildhall has to be rearranged due to the officer being on leave.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
55	CSC / CCC (Cath Ranson): <i>Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ceredigion (CDLI) 2018-2033. Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG) ac Asesiad Amgylcheddol Stradegol (AAS) ar y CDLI.</i> Ceredigion Replacement Local Development Plan (LDP) 2018-2033. Sustainability Appraisal (SA) and Strategic Environmental Assessment (SEA) Scoping Report Consultation	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 16 Mai.</i> Forwarded to all councillors on 16 May. <i>Derbynnir sylwadau'n ysgrifenedig erbyn canol dydd 19 Mehefin 2019.</i> Any comments should be sent in writing by midday on 19 June 2019. <i>Gwybodaeth bellach / Further information:</i> ldp@ceredigion.gov.uk or 01545 572123
56	CSC / CCC (Elen James): <i>Gwahoddiad i lansiad y prosiect graffiti cymunedol ar ffens Jewsons, 11/6/19, 3:15yp.</i> Invitation to the launch of the graffiti community project on the rear fence of Jewsons along the banks of the River Teifi, 11/6/19, 3:15pm.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 16 Mai.</i> Forwarded to all councillors on 16 May.
57	<i>Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru: Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ceredigion – Adroddiad Argymhellion Terfynol.</i> Local Democracy and Boundary Commission for Wales: Review of the Electoral Arrangements for the County of Ceredigion – Final Recommendation Report.	<i>Mae'r hysbysiad wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> The information notice has been posted on the notice board. Report can be viewed on: www.ldbc.gov.wales <i>Am wybodaeth leol, gweler isod.</i> For local information, see below.
58	<i>Eisteddfod Genedlaethol Cymru: Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Ceredigion 2020, Sadwrn, 29 Mehefin, 11:00yb.</i> National Eisteddfod of Wales: The Ceredigion 2020 Eisteddfod Proclamation Ceremony, Saturday, 29 June at the Ysgol Uwchradd Aberteifi grounds at 11:00am.	<i>Enwebwyd y Maer a'i Chydsiwedd i fynychu'r seremoni.</i> The Mayor and Consort were nominated to represent the town council at the Proclamation.
59	Cardigan Classic Car Club: <i>Llythyr o ddiolch am gyfraniad y cyngor.</i> Letter of acknowledgment for the council grant.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
60	Menter Aberteifi Cyf.: <i>Llythyr o ddiolch am gyfraniad y cyngor.</i> Letter of acknowledgment for the council grant.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
61	<i>Sefydliad Cŵn Tywys i'r Deillion / Guide Dogs for the Blind: Llythyr o ddiolch am gyfraniad y Maer (Y Cyng. John Adams-Lewis).</i> Letter of acknowledgment for the Mayor's donation (Cllr John Adams-Lewis).	<i>Nodwyd.</i> Noted.
62	<i>Motor Neurone Disease Association: Llythyr o ddiolch am gyfraniad y Maer (Y Cyng. John Adams-Lewis).</i> Letter of acknowledgment for the Mayor's donation (Cllr John Adams-Lewis).	<i>Nodwyd.</i> Noted.
63	<i>Sefydliad Prydeinig y Galon / British Heart Foundation: Llythyr o ddiolch am gyfraniad y Maer (Y Cyng. John Adams-Lewis).</i> Letter of acknowledgment for the Mayor's donation (Cllr John Adams-Lewis).	<i>Nodwyd.</i> Noted.
64	<i>Sioe Dydd Sadwrn Barlys: Llythyr o ddiolch am gyfraniad y cyngor tuag at gostau'r Sioe.</i> Cardigan Barley Saturday Show: Letter of acknowledgment for the council's donation towards the Show's running costs.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
65	Cardigan Classic Car Club: <i>Gwahoddiad i'r Maer agor y Sioe yn swyddogol.</i> Invitation to the Mayor to officially open the Show, 26/5/19, 10:00am.	<i>Yn absenoldeb anorfod y Maer, cyflawnwyd y ddefod gan y Dirprwy Faer.</i> In the unavoidable absence of the Mayor, the Deputy Mayor opened the Show.
66	3 rd Cardigan Sea Scout Group: <i>Gwahoddiad i'r Maer fynychu'r Cyfarfod Blynyddol.</i> Invitation to the Mayor to attend the Annual General Meeting, 3/6/19, 6:30pm at the Scout HQ, The Strand.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.

67	<i>Sioe Amaethyddol Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer a'i Chydwedd fynychu'r ginio ar faes y Sioe ar 3 Awst.</i> Cardigan Agricultural Show: Invitation to the Mayor and Consort to attend the luncheon at the Show field on 3 August.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.
68	Bro Teifi Tenants' Association: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'i Chydwedd fynychu dathliad pen-blwydd Mrs Sally Morris yn 100 oed, 29 Awst am 2:30yp.</i> Invitation to the Mayor and Consort to attend the 100 th birthday party of Mrs Sally Morris, 29 August at 2:30pm.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.
69	Friends of the Aberporth Centre for Children with Special Needs: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>Caiff y cais ei drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> The application will be discussed at the September Grants sub-committee.
70	Scouts – Tarian y Ddraig: Explorer Scout Unit: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>Caiff y cais ei drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> The application will be discussed at the September Grants sub-committee.
71	Information Commissioners Office: <i>Gwybodaeth i'r cyngor am Ddiogelu Data.</i> Information regarding paying the data protection fee. Councillors are exempt from paying the fee.	<i>Mae'r cyngor wedi talu'r aelodaeth am y flwyddyn gyfredol.</i> The council has paid by direct debit for the current year (£35 on 23 April 2019).
72	Partneriaeth Canol y Dref: <i>Diweddariad.</i> Cardigan Town Centre Partnership: Update and information.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 3 Mehefin.</i> Forwarded to all councillors on 3 June.
73	<i>Ffrindiau'r Maes Sgrialu: Diweddariad ar y gwaith.</i> Friends of Cardigan Skatepark: Update on recent work on the site.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 3 Mehefin.</i> Forwarded to all councillors on 3 June.
74	<i>Cynnal y Cardi: Datblygu syniadau i ehangu economi'r nos (5:00-9:00).</i> Develop ideas that aim to enhance the evening (5:00-9:00) economy in the area. Dates: 10/6/19 (pm), 11/6/19 (am or pm), 13/6/19 (am)?	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 3 Mehefin.</i> Forwarded to all councillors on 3 June. <i>Cytunodd y cyngorwyr canlynol fynychu'r cafarfod.</i> The following agreed to attend the meeting: Cllrs Shan Williams, Clive Davies, Richard Jones, Wyn Jones.
75	Mr Ryan Anthony: <i>Cwyn am nythoedd gwenyn meirch ar y Cae Chwarae.</i> Complaint regarding hornets/wasps nests at the King George 5 th Playing Field and Victoria Gardens.	<i>Mae'r cyngor sir wedi anfon swyddog i archwilio'r safleoedd.</i> The county council has send an officer to inspect the sites.
76	RoSPA Play Safety Ltd.: <i>Oherwydd y gwaith ar y Maes Sgrialu, mae angen aildefnu dyddiad yr archwiliad.</i> Due to the work at the Skateboard Park, a rearranged date for inspection to be set.	<i>Cytunwyd i'r mudiad aildefnu dyddiad.</i> It was agreed for RoSPA to rearrange a suitable date at a cost of £42+VAT.
77	<i>Adroddiad y Bachan Deche (Mai)</i> Handyperson's Report (May)	<i>I'w drafod tan eitem 11.</i> To be discussed under item 11.

[57]—Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru: Mae copi o'r "Adroddiad Agymhellion Terfynol" a gyhoeddwyd ym Mai 2019 gan y Comisiwn ar gael gan y clerc. Mae'r Adroddiad yn ymdrin ag "Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ceredigion".

Argymhellir y dylai ward **Mwldan** gadw'r trefniadau presennol gydag un cynghorydd yn cynrychioli'r ward. Mae'r Comisiwn yn argymhellir y dylai wardiau Rhyd-y-fuwch a Theifi yn nhref Aberteifi gael eu cyfuno i ffurfio ward etholiadol o 1,646 o etholwyr (1,717 o etholwyr rhagamcanol) a fyddai'n cael ei chynrychioli gan un cynghorydd; argymhellir hefyd roi'r enw unigol **Teifi** i'r ward etholiadol argymelledig.

Felly, bydd gan Aberteifi ddwy ward, **Teifi a Mwldan**, a dau gynghorydd yn cynrychioli'r naill ward a'r llall. Mae'r wybodaeth uchod ar gael ar dudalennau 10, 11, 12 a 13 o'r Adroddiad.

[57]—Local Democracy and Boundary Commission for Wales: A copy of the "Final Recommendation Report" published in May 2019 by the Commission is available with the clerk. The Report is a "Review of the Electoral Arrangements of the County of Ceredigion".

The Commission recommends that the existing arrangements be retained for the **Mwldan** ward in Cardigan, represented by one councillor. The Commission recommends that the **Rhyd-y-fuwch** and **Teifi** wards of the town of Cardigan be combined to form an electoral ward of 1,646 electors (1,717 projected), which, would be represented by one councillor; the Commission also recommends that the ward be given the single name of **Teifi**. Cardigan town accordingly will have two wards represented by two councillors representing either ward.

The above information is available on pages 9, 10, 11 and 12 of the Report.

Cath Ranson: *Rheolwr y Gwasanaethau Cynllunio, Polisi ac Ymchwil / Planning Policy and Research Services Manager*

Elen James: *Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Dysgu Gydol Oes a Diwylliant / Corporate Lead Officer: Lifelong Learning and Culture*

11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Jones bod cofnodion 21 Mai yn gywir.

Cllr Marilyn Farmer proposed that the 21 May minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Richard Jones.

Materion yn codi: *Matters arising:*

Tud. 1503 (Unrhyw fater arall [b]) Mainc wedi ei fandaleiddio ym Mharc y Ffair.

Mae'r mainc wedi ei chwalu gan fod y pren yn bydredig. Mae logo'r cyngor wedi ei chynnwys ar ochr y fframwaith haearn. Cytunwyd bod y Bachan Deche yn symud y fframwaith a bod adran gwaith coed Coleg Ceredigion yn ystyried ei chywirow.

Page 1503 (Any other business [b]): Bench vandalised in the Fair Field car park.

The bench which is of steel manufacture and has a council emblem within the metalwork was deemed to be time-worn with the wooden framework in a poor condition. It was agreed that the Handyperson salvages the frame and that the council confers with the woodwork department of Coleg Ceredigion regarding its reclamation.

(a) Enwebu Aelodau'r Is-bwyllgorau a Chyrff Allanol am 2019-20.

Nomination of Sub-committee Members and External Bodies, 2019-20.

Archwiliwyd y rhestr flaenorol a chytunwyd gyda'r newidiadau. Caiff copi o'r ffurflen am 2019-20 ei hanfon i'r aelodau maes o law. Cytunwyd enwebu'r Maer a'r Clerc i gynrychioli'r cyngor yng nghyfarfodydd chwarterol Un Llais Cymru.

Yn yr un modd, ailenwebwyd y Cyng. Graham Evans i gynrychioli'r cyngor ar Gorff Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Aberteifi.

The previous list was scrutinised by members and revised accordingly. A copy of the 2019-20 list will be forwarded to all members in due course. It was agreed that the Mayor and Clerk be nominated to represent the council at the One Voice Wales quarterly meetings. Cllr Graham Evans was re-nominated to represent the council on the Ysgol Gynradd Aberteifi Governing Board.

12. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein:

(i) Meysydd parcio: Mesuryddion a chostau uchel.

Derbyniwyd adroddiad bod y swm a dderbyniwyd o'r meysydd parcio yng Ngheredigion yn ystod y flwyddyn ariannol 2018-19 yn £944,824.50. O'r swm yma, derbyniwyd £314,907.57 o feysydd parcio tref Aberteifi. Oherwydd yr anghydbwysedd yma, gan ystyried yr holl feysydd parcio sydd yn y sir a hefyd maint tref Aberteifi mewn cymhariaeth ag Aberystwyth, cytunwyd bod llythyr yn cael ei anfon at Ms Katy Spain, Rheolwr Gwasanaethau Parcio'r cyngor sir, a'r Prif Weithredwr, yn gofyn am eglurhad.

Car park meters and excessive charges.

It was reported that the revenue for car parking in Ceredigion for the 2018-19 financial year amounted to £944,824.50. Of this, £314,907.57 was generated from car parks located in Cardigan. Members felt that this imbalance, considering the numerous other car parks located in the county and the four-fold population of Aberystwyth alone, was unacceptable. It was agreed that a letter requesting explanations regarding this imbalance be forwarded to Ms Katy Spain, Parking Services Manager of the county council, with a copy to the Chief Executive.

(b) Y Clerc / Clerk:

(i) Dyfodol asedau'r cyngor sydd yn cael eu harddangos yng Nghastell Aberteifi.

Yn dilyn trafodaeth fer, cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Jones bod yr asedau yn cael eu harddangos yn barhaol yn y Castell. Mae ymddiriedolwyr y Castell yn gyfrifol am eu hyswirio. Gofynnwyd i'r clerch anfon manylion yr asedau ymlaen i Gyfarwyddwr y Castell, Mr Jac Davies.

Safe-keeping of the council's assets now displayed at Cardigan Castle.

Following a short discussion regarding the council assets, it was proposed by Cllr Marilyn Farmer and seconded by Cllr Richard Jones that they continue to remain at the Castle for public display. The Castle authorities are responsible for insuring the assets. The clerk was requested to forward the list of assets to the Castle Director, Mr Jac Davies.

(c) **Y Cyng. / Cllr Richard Jones:**

- (i) **Plac ar y Senotaff er coffadwriaeth am y canlynol. Diweddariad yn dilyn cyfarfod gyda swyddogion y cyngor sir.**

Mynychodd y Cyng. Richard Jones a'r clerc gyfarfod i osod plac ar y senotaff er coffadwriaeth am filwyr a syrthiodd yn rhyfeloedd y Falklands ac Afghanistan. Pwrpas y cyfarfod oedd trafod trefniadau ar gyfer seremoni dadorchuddio a fydd yn unol â phrotocol a dymuniadau'r teuluoedd. Er mwyn dilyn canllawiau llym ynglŷn â gosod y plac, cynigiwyd gan y Cyng. Steffan Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. Elaine Evans bod y cyngor yn hysbysu'r cyngor sir nad oes gan Gyngor Tref Aberteifi unrhyw wrthwynebiad i osod y plac yn union ar wyneb y garreg gyda'r amod bod y llythrennu yn dilyn yr un teip-wyneb â'r ddau blac sydd yno'n barod.

Remembrance plaque for fallen members of the armed forces, Lee Davies, Dave Greenhalgh and Michael Dunphy on Cardigan Cenotaph. Update following a meeting with officials from the county council.

Cllr Richard Jones and the clerk recently attended a meeting to place a plaque commemorating the fallen of the Falklands and Afghanistan conflicts on the cenotaph memorial. The purpose of the meeting was to discuss arrangements for the unveiling ceremony which would be in line with protocol and the wishes of the families. In order to assist with the arrangements and in line with strict directives of the placing of the plaque on the memorial, it was proposed by Cllr Steffan Morgan and seconded by Cllr Elaine Evans that the council informs the county council that Cardigan Town Council has no objection to a brass plate with names in identical typeface to the two existing brass plates be positioned on the surface of the marble.

- (ii) **Coed ar y cylchfannau yn amharu ar welediad gyrwyr. Nodwyd.**
Trees on the roundabouts impeding drivers' vision on approach. Noted.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.50yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.50pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date